

## AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL CYNGOR SIR DDINBYCH

### ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUNIO – 2017-2018

#### RHAGAIR



Cynghorydd Brian Jones yw'r Aelod Arweiniol dros Briffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yn Sir Ddinbych.

Mae'r Cynghorydd Jones yn croesawu'r egwyddor i holl awdurdodau Cymru gynhyrchu adroddiad o'r fath sy'n dangos i'r cyhoedd sut mae awdurdodau yn perfformio yn erbyn dangosyddion a thargedau a nodir.

Mae'r Cynghorydd Jones yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac yn fodlon bod 'gwasanaethau cynllunio' yn Sir Ddinbych yn perfformio ar lefel dda.

#### Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLI)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi canllawiau ar beth y gellir ei adeiladu ac ymhle ledled y Sir dros gyfnod o 15 mlynedd. Mae gofyn i bob Cyngor yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer eu hardal. Mae'r CDLI yn pennu lle y bydd datblygiad newydd yn digwydd, gan gymryd i ystyriaeth ymhlith pethau eraill, yr angen am:

- Dir Cyflogaeth
- Tai
- Siopau
- Cyfleusterau hamdden
- Diogelu ein hamgylchedd unigryw

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych gan y Cyngor Sir ar 4 Mehefin 2013 ac mae'n cynnwys y cyfnod 2006 - 2021. Gweledigaeth y CDLI yw ...


Bod gan Sir Ddinbych, trwy ddatblygu cynaliadwy, arfordir trefol bywiog, gyda threfi marchnad ac ardaloedd gwledig ffyniannus. Bod anghenion tai a chyflogaeth y Sir yn cael eu diwallu, yr amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei ddiogelu a'i wella ac ansawdd bywyd uchel yn cael ei gynnal ar gyfer pob cymuned gan gydnabod bod gennym iaith a diwylliant Cymraeg cryf y dylid ei gynnal a'i ddiogelu ar draws y Sir. Ledled y Sir bydd yr amgylchedd o ansawdd uchel yn parhau i gael ei ddiogelu a'i wella trwy gyfeirio datblygiad.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi ei [gyhoeddi ar wefan Sir Ddinbych](#). Mae Sir Ddinbych wedi dechrau adolygu'r CDLI. Mae rhagor o [wybodaeth ar gael ar y wefan](#). Cafodd yr Adroddiad Adolygu'r CDLI a'r Cytundeb Cyflawni (drafft) ar gyfer y CDLI Newydd eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2017 a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## GWASANAETH CYNLLUNIO

Mae Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn Sir Ddinbych wedi ei rannu yn saith adran; dwy ohonynt yn cyflawni swyddogaethau 'gwasanaeth cynllunio':

1. Mae'r **tîm Rheoli Datblygu** wedi'i leoli yng Nghaledfryn yn Ninbych. Mae'r tîm yn gyfrifol am ymdrin â cheisiadau cynllunio, apeliadau cynllunio, torri ymchwiliadau rheoli cynllunio a rhai miloedd o ymholiadau cyffredinol bob blwyddyn. Mae Pwyllgor Cynllunio yn cael ei gynnal yn fisol yn Neuadd y Sir, Rhuthun.
2. Mae'r **tîm Strategol Cynllunio a Thai** wedi'i leoli yng Nghaledfryn yn Ninbych. Mae'r tîm yn gyfrifol am ddatblygu fframwaith polisi cynllunio ar gyfer y Sir, yn bennaf trwy'r Cynllun Datblygu Lleol a'r ystod o ganllawiau cynllunio atodol a briffiau datblygu safleoedd unigol sy'n rhoi arweiniad cynllunio mwy manwl. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn ffurfio'r sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.



*Strwythur Rheoli Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd*

Mae'r swyddogaeth 'gwasanaeth cynllunio' yn cael ei staffio gan 19 o swyddogion, gyda rhai ohonynt yn gweithio'n rhan amser ac felly'n cyfateb i 17.4 gweithiwr amser llawn, fel y dangosir isod:

<b>Rheoli Datblygu</b>	<b>Swyddogion:</b>	<b>Amser llawn</b>
Rheolwr Datblygu	1	1
Prif Swyddogion Cynllunio	2	1.8
Swyddogion Cynllunio	4	3.8
Swyddogion Cydymffurfiaeth	1	1
Swyddogion Cefnogi Cynllunio	5	4.9
	<b>13</b>	<b>12.5</b>

<b>Cynllunio Strategol a Thai</b>	<b>Swyddogion:</b>	<b>Amser llawn</b>
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai	1	1
Swyddogion Polisi Cynllunio	4	2.9
Swyddog Gweinyddol	1	1
	<b>6</b>	<b>4.9</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>19</b>	<b>17.4</b>

## **BLEANORIAETHAU GWASANAETH:**

Mae gan Wasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Sir Ddinbych bedair blaenoriaeth / canlyniadau:

1. Cyfrannu at gynhyrchu amgylchedd cysylltiedig, deniadol, diogel ac iach er lles drigolion ac ymwelwyr, pobol ifanc a busnesau fel ei gilydd
2. Bod y farchnad dai yn Sir Ddinbych yn cynnig ystod o fathau a ffurfiau o dai a bod digon ohonynt o ansawdd i ddiwallu anghenion unigolion, teuluoedd a busnesau
3. Bod busnesau yn cael eu cefnogi a'u rheoleiddio, er mwyn sicrhau amgylchedd masnachu teg a byddwn yn cefnogi'r rhai sydd am fuddsoddi yn y sir i'w galluogi i dyfu
4. Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn wasanaeth effeithlon ac wedi'i reoli'n dda

Mae'r 'gwasanaeth cynllunio' yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r pedwar canlyniad.

## **EICH STORI LEOL:**

Mae'r adroddiad hwn yn dangos gwybodaeth fanwl am:

- Beth yw barn y defnyddwyr gwasanaeth; ac
- Ein perfformiad yn 2017/18

## BARN Y RHEINI SY’N DEFNYDDIO’R GWASANAETH:

Yn 2017-18 cynhaliwyd arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid gyda'r nod o asesu barn pobl a oedd wedi derbyn penderfyniad cais cynllunio yn ystod y cyfnod.

Anfonwyd yr arolygon at 385 o bobl, 17% ohonynt wedi cyflwyno ymateb llawn neu rannol. Roedd mwyafrif yr ymatebion (43%) yn dod o aelodau'r cyhoedd. Roedd 17% yr ymatebion wedi dod gan ymatebwyr a gafodd eu cais cynllunio eu gwrthod yn ddiweddar.

Dyma ni'n gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y gwasanaeth cynllunio. Rhoddwyd yr opsiynau ateb canlynol iddynt:

- Cytuno'n gryf;
- Tueddu i gytuno;
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno;
- Tueddu i gytuno; a
- Anghytuno'n gryf.


Mae Tabl 1 yn dangos canran o ymatebwyr a ddewisodd 'tueddu i gytuno' neu 'cytuno'n gryf' ar gyfer pob datganiad ar gyfer ein hawdurdod cynllunio a Chymru.

**Tabl 1: Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob datganiad, 2017-18**

Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:	ACLI Sir Ddinbych %	Cymru %
Mae'r ACLI yn gorfodi ei reolau cynllunio'n deg ac yn gyson	52	55
Rhoddodd yr ACLI gyngor da i'ch helpu i wneud cais llwyddiannus	54	60
Mae'r ACLI yn rhoi help trwy gydol y broses, gan gynnwys mewn perthynas ag amc	41	52
Ymatebodd yr ACLI yn brydlon pan oedd ganddynt gwestiynau	55	62
Gwrandawodd arnynt ynghylch ei chais	57	60
Cafodd yr holl wybodaeth ddiweddaraf am eich cais	44	52
Yn fodlon yn gyffredinol ar sut deliodd yr ACLI â'ch cais	63	63

Fe wnaethom hefyd ofyn i ymatebwyr ddewis tair nodwedd y gwasanaeth cynllunio o restr, yr oeddent o'r farn y byddent yn eu helpu fwyaf i gyflawni datblygiadau llwyddiannus. Mae ffigur 1 yn dangos canran yr ymatebwyr oedd wedi dewis pob nodwedd fel un o'u tri dewis. I ni, 'cael mynediad at y swyddog achos i wirio ceisiadau' oedd y dewis mwyaf poblogaidd.

**Ffigwr 2: Canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â phob datganiad, 2017-18**



Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

- “Roedd y Cynllunwyr a'r staff yn gynorthwyl iawn ac yn rhoi cyngor ardderchog.”
- “Gwnaed y broses gyfan yn haws nag oeddwn yn meddwl oherwydd y ffordd broffesiynol y gwnaeth y swyddogion eu swyddi.”
- “Efallai y gallai'r swyddogion cynllunio osod neu orfodi targedau ar ymatebion yr ymgynghorion, gan ei bod yn ymddangos bod oedi wrth gael adborth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn yr adran gynllunio yn ystod y broses. Hefyd, efallai gwell eglurhad ar eiriad rhai amodau cynllunio, oherwydd bod y geiriad weithiau yn amwys ac roedd angen trafodaethau pellach gyda'r swyddog cynllunio i ddarganfod beth oedd ei angen er mwyn cyflawni'r amodau. Mae'n debyg nad yw hyn yn benodol i ACLI Cyngor Sir Ddinbych.”

## EIN PERFFORMIAD YN 2017-18

Mae'r adran hon yn manylu ar ein perfformiad yn 2017-18. Mae'n ystyried dangosyddion Fframwaith Perfformiad Cynllunio a data hysbys arall i helpu i greu darlun clir o'n perfformiad. Pan fo'n briodol rydym yn gwneud cymariaethau rhwng ein perfformiad a'r darlun yng Nghymru gyfan.

Mae'r perfformiad yn cael ei ddadansoddi ar draws pum prif elfen darpariaeth y gwasanaeth cynllunio sy'n cael eu nodi yn y Fframwaith Perfformiad Cynllunio.

- Cynllunio;
- Effeithlonrwydd;
- Ansawdd;
- Ymgysylltiad; a
- Gorfodaeth.

## Cynllunio


Ar 31 Mawrth 2018, roeddem yn un o'r 22 Awdurdod Cynllunio Lleol gyda chynllun datblygu cyfredol ar waith. Mae gofyn i ni gyflwyno Adroddiad Monitro Blyneddol ym mis Hydref 2018. Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi.

Yn ystod cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol, roedd gennym 1.8 flynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai yn hysbys, sy'n ein gwneud ni'n un o 18 Awdurdodau Cynllunio Lleol heb y cyflenwad 5 mlynedd gofynnol.

## Effeithlondeb

Yn 2017-18 fe wnaethom ni benderfynu ar 916 cais cynllunio, pob un yn cymryd 69 diwrnod (10 wythnos) ar gyfartaledd,. Mae hyn yn cymharu â 81 diwrnod (12 wythnos) ar draws Cymru ar gyfartaledd. Mae ffigwr 2 yn dangos yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd gan bob Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu ar gais yn ystod y flwyddyn honno.


**Ffigwr 2: Amser ar gyfartaledd a gymerir (diwrnodau) i benderfynu ar geisiadau, 2017-18**



Penderfynwyd ar 90% o bob cais cynllunio o fewn yr amserlenni angenrheidiol. Roedd hyn yn cymharu â 89% ledled Cymru ac yr oeddem yn un o 22 ACLI a oedd wedi cyrraedd y targed o 80%.


Mae ffigwr 3 yn dangos y canran o geisiadau cynllunio a benderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol ar draws y pedwar prif math o gais ar gyfer ein Hawdurdod Cynllunio Lleol ni a Chymru. Mae hyn yn dangos ein bod wedi penderfynu ar 98% o geisiadau deiliaid tai o fewn yr amserlenni gofynnol. Hefyd penderfynwyd 19% o geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig o fewn yr amserlenni gofynnol.

**Ffigwr 1: Canran ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol, yn ôl math, 2017-18**



Rhwng 2016-17 a 2017-16, fel mae Ffigwr 4 yn ei ddangos, mae canran y ceisiadau cynllunio rydym yn penderfynu arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol wedi cynyddu o 80%. Gwelodd Gymru gynnydd hefyd eleni.

**Ffigwr 2: Canran ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol**




Dros yr un cyfnod o amser:

- Bu lleihad yn nifer y ceisiadau ddaeth i law;
- Bu cynydd yn y nifer y ceisiadau roeddem wedi penderfynu arnynt; a
- Bu cynydd yn y nifer y ceisiadau a gymeradwywyd

### Ceisiadau mawr

Fe benderfynon ni ar 14 cais cynllunio mawr yn 2017-18, doedd run ohonynt yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Cymerodd pob cais 210 diwrnod ar gyfartaledd (30 wythnos) i benderfynu arnynt. Fel mae ffigur 5 yn dangos, roedd hyn yn fyrrach na'r cyfartaledd i Gymru o 240 diwrnod (34 wythnos).

**Ffigur 3: Amser ar gyfartaledd (diwrnodau) a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau mawr, 2017-18**




Cafodd 57% o'r ceisiadau mawr hyn eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol, i gymharu â 69% ar draws Cymru

Mae ffigur 6 yn dangos canran y ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt o fewn amserlenni gofynnol y prif fathau o geisiadau mawr. Cafodd 16% o'n ceisiadau mawr 'safonol' h.y. y rheiny nad oedd angen Asesiad O'r Effaith Amgylcheddol eu penderfynu o fewn yr amserlenni gofynnol.



**Ffigwr 4: Canran ceisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amserlenni gofynnol, yn ôl math, 2017-18**




Yn ychwanegol at hyn, fe benderfynon ni 7 gais mawr a oedd yn ddarostyngedig i CPA yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn.

Ers 2016-17 roedd canran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol wedi cynyddu o 31%. Mewn cyferbyniad, gostyngodd nifer y ceisiadau mawr a benderfynwyd ac hefyd y nifer ceisiadau oedd yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ystod y flwyddyn.

Mae ffigwr 7 yn dangos y duedd yng nghanran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol mewn blynnyddoedd diweddar a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.

**Ffigwr 7: Canran ceisiadau cynllunio mawr a benderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol**



Dros yr un cyfnod o amser:

- Cynyddodd canran y ceisiadau bach y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 89% i 94%.
- Cynyddodd canran y ceisiadau deiliaid tŷ y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 94% i 98%; a
- Cynyddodd canran y ceisiadau eraill y penderfynwyd arnynt o fewn yr amserlenni gofynnol o 68% i 83%.


## Ansawdd

Yn 2017-18, fe wnaeth ein Pwyllgor Cynllunio wneud 71 penderfyniad cais cynllunio yn ystod y flwyddyn, oedd yr un fath â 8% o'r holl benderfyniadau ceisiadau cynllunio. Ar draws Cymru gwnaed 7% o'r holl geisiadau cynllunio gan bwyllgorau cynllunio.

Aeth 11% o'r penderfyniadau hyn a wnaed gan aelodau fynd yn erbyn cyngor y swyddog. Mae hyn yn cymharu â 9% o benderfyniadau a wnaed gan aelodau ar draws Cymru. Roedd hyn yr un peth â 0.9% o'r holl benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn mynd yn erbyn cyngor swyddogion; 0.6% ar draws Cymru.

Yn 2017-18 roeddem wedi derbyn 20 apêl yn erbyn ein penderfyniadau cynllunio, oedd yr un peth a 2.2 apêl i bob 100 cais ddaeth i law. Ar draws Cymru, cafwyd 2.2 apêl i bob 100 cais. Mae ffigwr 8 yn dangos bod nifer yr apeliadau a gafwyd wedi newid ers 2016-17 a sut mae hyn yn cymharu â Chymru.


**Ffigwr 8: Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd am bob 100 o geisiadau cynllunio**



Dros yr un cyfnod cynyddodd canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o 70% i 72%.

O'r 18 apêl y penderfynwyd arnynt yn ystod y flwyddyn, gollyngwyd 72%. Fel mae ffigwr 9 yn dangos, roedd hyn yn uwch na chanran yr apeliadau a ollyngwyd ar draws Cymru Gyfan ac roeddem yn un o 10 ACLL y gyrrhaeddodd y targed o 66%.

**Ffigwr 5: Canran yr apeliadau a ddiystyrwyd, 2017-18**



Yn ystod 2017-18 cafodd 2 gais am gostau mewn apêl adran 78 eu cadarnhau, gan ein gwneud ni'n un o 8 Awdurdodau Cynllunio Lleol i gael un cais o leiaf o'r fath wedi ei gadarnhau yn y flwyddyn.

### Ymgysylltu

Rydym ni:

- yn un o 24 Awdurdod Cynllunio Lleol a wnaeth ganiatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio; ac
- yn un o 21 Awdurdod Cynllunio Lleol a oedd â chofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio.

Fel mae Tabl 2 yn dangos, cytunodd 54% o ymatebwyr ein harolwg 2017-18 o fodlonrwydd cwsmeriaid bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi cynnig cyngor da i'w helpu i gyflwyno cais llwyddiannus.

**Tabl 3: Adborth o'n harolwg bodlonrwydd cwsmeriaid 2017-18**


Canran yr ymatebwyr oedd yn cytuno bod:	ACLJ Sir Ddinbych %	Cymru %
Rhoddodd yr ACLJ gyngor da i'ch helpu i wneud cais llwyddiannus	54	60
Gwrandawodd arnynt ynghylch ei chais	57	60

## Gorfodaeth

Yn 2017-18 fe wnaethom ymchwilio i 144 o achosion o orfodi, sydd yr un peth â 1.5 i bob 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â 2.0 achos o orfodi y cafodd eu hymchwilio iddynt i bob 1,000 o'r boblogaeth ar draws Cymru.

Fe wnaethom ymchwilio i 81% o'r achosion gorfodaeth hyn o fewn 84 diwrnod. Ar draws Cymru, fe ymchwiliwyd i 81% o fewn 84 diwrnod. Mae ffigwr 10 yn dangos canran yr achosion gorfodaeth y cafwyd ymchwiliad iddynt o fewn 84 diwrnod ar draws holl Awdurdodau Cynllunio Cymru.

**Ffigwr 60: Canran yr achosion gorfodi a ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod, 2017-18**



ATODIAD A – FFRAMWAITH PERFFORMIAD

TROSOLWG

DANGOSYDD	DA	GWEDDOL	GWELLA
<b>Gwneud Cynllun</b>			
A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac Oes
Y gwriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.	<12	13-17	18+
Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Oes		Nac Oes
Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	>5		<5
<b>Effeithlonrwydd</b>			
Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	>60	50-59.9	<50
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	>80	70-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+

CYFAR- TALEDD CYMRU	Cyngor Sir Ddinbych Y LLYNEDD	Cyngor Sir Ddinbych ELENI
Oes	Oes	Oes
67	Dd/B	Dd/B
Oes	Oes	Oes
7 o 25	2	1.8
67.4	31	57
240.1	230	210
88.5	80	90
80.7	68	69

DANGOSYDD	DA	GWEDDOL	GWELLA
Canran y ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig a bennir o fewn cyfnodau amser gofynnol	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi
<b>Ansawdd</b>			
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+
Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod	>66	55.1-65.9	<55
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+
<b>Ymgysylltu</b>			
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Oes		Nac Oes
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac Oes
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhannol	Nac Oes
<b>Gorfodi</b>			
Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio o fewn 84 diwrnod	>80	70-79.9	<70
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ymchwilio i achosion gorfodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi

CYFAR-TALEDD CYMRU	Cyngor Sir Ddinbych Y LLYNEDD	Cyngor Sir Ddinbych ELEN I
65.4	-	19
8.6	12	11
62.6	60	72
0	2	2
Oes	Oes	Oes
Oes	Oes	Oes
Oes	Oes	Oes
80.6	96	81
184.6	124	Dim data

**ADRAN 1 – GWNEUD CYNLLUN**

<b>Dangosydd</b>	<b>01. A oes Cynllun Datblygu cyfredol yn ei le sydd o fewn cyfnod y cynllun?</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Mae cynllun datblygu yn ei le ac o fewn cyfnod y cynllun	Dd/B	Nid oes cynllun datblygu yn ei le (gan gynnwys cynlluniau sydd wedi dod i ben)
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Oes	
Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych gan y Cyngor Sir ar 4 Mehefin 2013.		

<b>Dangosydd</b>	<b>02. Y gwyrriad, wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI), oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd.</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 mis i'r dyddiadau a nodir yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI o fewn 12 i 18 mis i'r dyddiadau a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol	Eir i'r afael â'r CDLI fwy na 18 mis yn hwyrach na'r dyddiad a nodir ar y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Ddim yn berthnasol	

<b>Dangosydd</b>	<b>03. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI</b>	
<b>Da</b>		<b>Gwella</b>
Mae'n amser cyflwyno AMB ac mae un wedi'i baratoi		Mae'n amser cyflwyno AMB, ac nid oes un wedi'i baratoi mewn pryd.
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Oes	

<b>Dangosydd</b>	<b>04. Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd</b>	
<b>Da</b>		<b>Gwella</b>
Mae gan yr awdurdod 5.0 mlynedd neu fwy o gyflenwad o dir ar gyfer tai		Mae gan yr awdurdod llai na 5 mlynedd o gyflenwad o dir ar gyfer tai
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	1.8	
Mae'n seiliedig ar y dull cyfraddau gweddilliol a nodir yn TAN 1		

## ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

<b>Dangosydd</b>	<b>05. Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Penderfynwyd ar 60% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 50% ac 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 50% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	57	

<b>Dangosydd</b>	<b>06. Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	210	

<b>Dangosydd</b>	<b>07. Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Penderfynwyd ar 80% neu fwy o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar rhwng 60% ac 80% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol	Penderfynwyd ar lai na 60% o'r ceisiadau o fewn yr amser statudol
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	90	

<b>Dangosydd</b>	<b>08. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Llai na 67 diwrnod	Rhwng 67 a 111 diwrnod	112 diwrnod neu fwy
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	69	

<b>Dangosydd</b>	<b>08a. Canran a gymerir i benderfynu Caniatâd Adeilad Rhestredig o fewn yr amser gofynnol</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	19	



### ADRAN 3 – ANSAWDD

Dangosydd	09. Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	
Da	Gweddol	Gwella
Llai na 5% o benderfyniadau	Rhwng 5% a 9% o benderfyniadau	9% neu fwy o benderfyniadau
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	11	
Cafodd 71 penderfyniadau eu gwneud gan Aelodau, 8 ohonynt yn groes i gyngor swyddogion		

Dangosydd	10. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod	
Da	Gweddol	Gwella
Mwy na 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Rhwng 55% a 66% o'r penderfyniadau cynllunio wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl	Llai na 55% o'r penderfyniadau cynllunio'n wedi'u hamddiffyn yn llwyddiannus adeg apêl
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	72	
13 allan o 18 apêl wedi'u diystyru		

Dangosydd	11. Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	
Da	Gweddol	Gwella
Nid yw'r awdurdod wedi gorfod talu costau unrhyw apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau un apêl yn ei erbyn	Mae'r awdurdod wedi gorfod talu costau dwy apêl neu fwy yn ei erbyn
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	2	

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTU**

<b>Dangosydd</b>	<b>12. A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?</b>	
<b>Da</b>		<b>Gwella</b>
Mae aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio		Nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu annerch y Pwyllgor Cynllunio
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Oes	
Gellir gweld ein Pwyllgorau Cynllunio hefyd ar weddarllediad		

<b>Dangosydd</b>	<b>13. A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?</b>	
<b>Da</b>		<b>Gwella</b>
Mae swyddog cynllunio ar ddyletswydd yn ystod oriau swyddfa arferol		Nid oes swyddog cynllunio ar ddyletswydd ar gael
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Oes	

<b>Dangosydd</b>	<b>14. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd olrhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Mae pob dogfen ar gael ar-lein	Dim ond manylion y cais cynllunio sydd ar gael ar-lein	Ni chyhoeddir gwybodaeth am geisiadau cynllunio ar-lein
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Oes	

## ADRAN 5 – GORFODI

<b>Dangosydd</b>	<b>15. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (penderfynu a yw rheolaeth gynllunio wedi'i thorri ac, os ydyw, penderfynu a fydd mantais mewn cymryd camau gorfodi) o fewn 84 diwrnod</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Mwy na 80% o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod	Rhwng 70% ac 80% o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod	Llai na 70% o achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	81	
117 allan o 144 achosion ymchwiliwyd o fewn 84 diwrnod		

<b>Dangosydd</b>	<b>16. Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol</b>	
<b>Da</b>	<b>Gweddol</b>	<b>Gwella</b>
Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi	Caiff y targed ei feincnodi
<b>Perfformiad yr awdurdod</b>	Dim data	
Oherwydd newidiadau yn y diffiniad yn erbyn y dangosydd hwn, roedd angen newid ein systemau technoleg. Adroddir ar ddata ar gyfer 2018/19.		

## ADRAN 6 – DANGOSYDDION YNGHYLCH DATBLYGU CYNALIADWY

Pwrpas y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yw mesur y cyfraniad y mae'r system gynllunio yn ei wneud i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Defnyddir y Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy i fesur y cynnydd yn erbyn amcanion cynaliadwyedd cynllunio cenedlaethol, a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gellir eu defnyddio i ddangos i randdeiliaid rôl a chwmpas y system gynllunio wrth gyflawni amcanion ehangach. Bydd y wybodaeth hefyd yn ddefnyddiol i awdurdodau cynllunio lleol ddeall mwy am ganlyniadau'r system gynllunio a helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol.

<b>Dangosydd</b>	<b>SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) ar gyfer datblygiad economaidd newydd y rhoddwyd neu y gwrthodwyd caniatâd ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn.</b>
<b>Caniatawyd (metrau sgwâr)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	14,248
<b>Gwrthodwyd (metrau sgwâr)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	0

<b>Dangosydd</b>	<b>SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn.</b>
<b>Caniatawyd (nifer y ceisiadau)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	1
<b>Caniatawyd (yr ynni MW a gynhyrchwyd)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	1

<b>Dangosydd</b>	<b>SD3. Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn.</b>
<b>Tai'r farchnad agored (nifer yr unedau)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	201
<b>Tai fforddiadwy (nifer yr unedau)</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	37

<b>Dangosydd</b>	<b>SD4. Nifer y ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu ar orlifdiroedd C1 a C2 a ganiatawyd ac a wrthodwyd yn ystod y flwyddyn.</b>
<b>Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) RHODDWDYD caniatâd ar eu cyfer</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	18
<b>Nifer yr unedau preswyl (a nifer hectarau'r unedau amhreswyl) NA RHODDWDYD caniatâd ar eu cyfer</b>	
<b>Data'r Awdurdod</b>	0

<b>Dangosydd</b>	<b>SD5. Arwynebedd y tir (ha) lle rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd ar dir a ddatblygwyd o'r blaen a thir maes glas yn ystod y flwyddyn.</b>
<b>Tir sydd eisoes wedi cael ei ddatblygu (hectarau)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	4
<b>Safle maes glas (hectarau)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	7

<b>Dangosydd</b>	<b>SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (ha) a fyddai'n cael ei gollu a'i ennill o ganlyniad i ddatblygu y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn ystod y chwarter blwyddyn.</b>
<b>Mannau agored a gollir (hectarau)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	0
<b>Mannau agored a enillir (hectarau)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	0

<b>Dangosydd</b>	<b>SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) ar gyfer darparu seilwaith cymunedol y cytunwyd arnynt wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu newydd yn ystod y chwarter blwyddyn.</b>
<b>Enillwyd drwy gytundebau Adran 106 (£)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	170,925
<b>Enillwyd drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (£)</b>	
<b>Data'r awdurdod</b>	0